

CYFARFOD:	PWYLLGOR PENSIYNAU
DYDDIAD:	18 IONAWR 2023
TEITL:	DATGANIAD STRATEGAETH CYLLIDO
PWRPAS:	I gadarnhau'r tybiaethau a pholisïau yn y Datganiad Strategaeth Cyllido
ARGYMHELLIAD:	CADARNHAU'R TYBIAETHAU A PHOLISÏAU
AWDUR:	DELYTH JONES-THOMAS, RHEOLWR BUDDSODDI

1. CYFLWYNIAD

- 1.1 Mae'n ofynnol arnom i adolygu a chyhoeddi Datganiad Strategaeth Cyllido (DSC) teirblynyddol erbyn 31 Mawrth 2023 yn dilyn y prisiad teirblynyddol.
- 1.2 Fel rhan o'r adolygiad bydd yn rhaid i'r awdurdod sy'n gweinyddu ymgynghori gyda'r cyflogwyr sy'n rhan o'r cynllun, yr actiwari ac ymgynghorwyr y gronfa, ac unrhyw rai eraill rydym yn ystyried yn addas.

2. PRISIAD ACTIWARAIDD

- 2.1 Mae prisiad actiwaraid tair blynyddol y Gronfa yn cael ei gwblhau ar hyn o bryd. Cynhaliwyd cyfarfod cyflogwyr ar 26 Hydref 2022 pan gyflwynwyd a thrafodwyd y canlyniadau actiwaraid rhagarweiniol. Mae adroddiadau terfynol yn cael eu paratoi ar gyfer pob cyflogwr ar hyn o bryd.
- 2.2 Paratowyd y prisiad actiwaraid gan ddefnyddio rhagdybiaethau y cytunwyd arnynt gyda'r actiwari. Mae'r cyfnodau adfer diffyg ar gyfer y gwahanol gategoriâu o gyflogwr yn ddarvoudus ac yn gyson gyda'r prisiad blaenorol.
- 2.3 Dangosodd y canlyniadau rhagarweiniol a ddarparwyd ym mis Hydref 2022 fod y mwyafrif o gyflogwyr bellach gyda gwarged ac felly nid oes ganddynt unrhyw daliadau diffyg i'w gwneud dros y tair blynedd nesaf. Bydd y cyflogwyr yn y sefyllfa yma yn gweld gostyngiad mewn cyfraniadau trwy gyfradd eilaidd negyddol. Nid yw pob cyflogwr yn y sefyllfa yma ac felly bydd gofyn iddyn nhw dalu cyfraniad diffyg bob mis.

3. DATGANIAD STRATEGAETH CYLLIDO DRAFFT (DSC)

- 3.1 Gweler copi drafft o'r DSC yn atodiad A.
- 3.2 Mae angen i'r Pwyllgor yn awr gadarnhau'r DSC drafft a pholisïau cysylltiedig cyn yr ymgynghoriad â holl gyflogwyr y Gronfa. Gofynnir i'r Pwyllgor benderfynu ar y materion a ganlyn:

3.3 CYFRIFO CYFRAN ASED AU

Mae'r Gronfa wedi mabwysiadu dull 'llif arian' ar gyfer olrhain asedau cyflogwyr unigol. Dull 'llif arian' yw pan fydd asedau cyflogwr yn cael eu olrhain dros amser gan ganiatáu ar gyfer llif arian delir i mewn, llif arian delir allan a dychweliadau buddsoddiadau ar asedau'r cyflogwr. Rhennir y gwahaniaeth

rhwng y cyflogwyr fel cyfran o'u cyfrannau asedau ym mhob prisiad tair blynedd.

3.4 CYFNODAU ADFER Y DIFFYG

Ym mhrisiad 2022 cyflwynodd yr awdurdod gweinyddu gyfnodau adfer diffyg fel y ganlyn:

- Cyrff ar yr atodlen – 17 mlynedd
- Coleg, Cyrff Cymunedol a Ganiateir a Chyflogwyr Dynodedig (ar agor i newydd-ddyfodiaid) – 14 mlynedd
- Coleg, Cyrff Cymunedol a Ganiateir a Chyflogwyr Dynodedig (ar gau i newydd-ddyfodiaid) – 14 mlynedd neu oes gwaith y dyfodol os yn llai
- Cyrff Trosglwyddai a Ganiateir – cyfnod y cytundeb presennol.

3.5 CASGLU DIFFYG

Mae cyflogwyr sydd mewn diffyg yn talu cyfraniadau cyflogwr ychwanegol er mwyn adennill y diffyg. Y polisi ar gyfer prisiad 2022, fel yn 2019 yw y bydd hyn fel canran o dâl.

3.6 CYFLOGWR SEFYDLOG

Ar gyfer y cyrff hyn, mae'r Gronfa yn pennu ystodau a bennwyd ymlaen llaw ar gyfer amrywiadau mewn cyfraniadau. Ar gyfer prisiad 2022, cytunwyd bod pob cyflogwr sefydlog yn agored i ostyngiadau yn eu cyfraddau sy'n gysylltiedig â'u cyfraddau cynradd ar gyfer 2022. Mae maint y gostyngiad yn dibynnu ar lefel ariannu 2022 (h.y. dim gostyngiad os caiff ei ariannu o dan 110%, gostyngiad o 1.0% os caiff ei ariannu rhwng 110% a 115%, gostyngiad o 2.0% os caiff ei ariannu rhwng 115% a 130%, a 3.0 % gostyngiad os caiff ei ariannu uwchlaw 130%).

3.7 CYFLOGWR ANSEFYDLOG

Mae cynnydd a gostyngiadau i gyfraddau ar gyfer cyrff a ganiateir yn amodol ar fecanwaith fesul cam. Ar gyfer prisiad 2022, pennir hyn drwy gyfrifo'r gwahaniaeth yng nghyfanswm y cyfraddau yn 2019 a 2022 cyn cymhwyso'r mecanwaith, ac yn cyfyngu ar y cynnydd neu'r gostyngiad dilynol fel a ganlyn:

- a) Os yw'r gwahaniaeth yn 5.0% neu llai o'r tâl, bydd y gyfradd yn newid yn ôl y gwahaniaeth llawn, neu
- b) Os yw'r gwahaniaeth yn fwy na 5.0% o'r tâl, yna bydd y gyfradd yn newid gan 5.0% ynghyd â hanner y gwahaniaeth uwchben 5.0%.

Bydd gostyngiadau cyfraddau ar gyfer cyflogwyr sefydlog, a'r cyflogwyr hynny sy'n destun y mecanwaith cyflwyno fesul cam, yn berthnasol yn llawn o 2023/24. Bydd unrhyw gynnydd mewn cyfraddau yn cael ei gyflwyno'n raddol dros gyfnod o 3 blynedd.

4. POLISIÂU YCHWANEGOL

Yn ogystal â'r wybodaeth a gyflwynir yn y Datganiad Strategaeth Cyllido, mae polisiâu ychwanegol sydd hefyd angen eu cymeradwyo sydd yn bwydo i mewn i'r Datganiad Strategaeth Cyllido. Y polisiâu ydi:

Atodiad D: Polisi ar rhagdaliadau cyfraniadau

Atodiad Dd: Polisi ar adolygu cyfraniadau

Atodiad E: Polisi ar basio drwodd

Atodiad F: Polisi ar reoli risg ymddeoliad drwy salwch

Atodiad Ff: Polisi ar adael y gronfa

5. CRYNODEB

Cyn ymgynghori â chyflogwyr ar y Datganiad Strategaeth Cyllido, gofynnir i'r Pwyllgor gadarnhau'r rhagdybiaethau a'r polisiau a amlinellir yn adran 3 a 4 o'r adroddiad hwn.

Yn dilyn y broses ymgynghori bydd y Pwyllgor yn cael fersiwn derfynol o'r Datganiad Strategaeth Cyllido i'w fabwysiadu erbyn 31 Mawrth 2023.